LGH-07-02 (min)

PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

Dyddiad: Dydd Mercher 24 Ebrill 2002

Amser: 2.00pm i 5.00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Yn bresennol:

Aelodau

Gwenda Thomas (Cadeirydd)	Castell-nedd
Peter Black (Dirprwy Weinidog)	Gorllewin De Cymru
William Graham	Dwyrain De Cymru
Edwina Hart (Gweinidog)	Gŵyr
Pauline Jarman	Canol De Cymru
Peter Law	Blaenau Gwent
Dai Lloyd	Gorllewin De Cymru
Tom Middlehurst	Alun a Glannau Dyfrdwy
Janet Ryder	Gogledd Cymru

Yn bresennol:

John Bader	Y Gyfarwyddiaeth Dai
Geoff Marlow	Y Gyfarwyddiaeth Dai
Kerry Charles	Y Gyfarwyddiaeth Dai
Kate Cassidy	Moderneiddio Llywodraeth Leol
Keith Ingram	Moderneiddio Llywodraeth Leol
Douglas Mackay	Dirprwy Brif Swyddog Tân, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Brian Fraser	Prif Swyddog Tân, Awdurdod Tân De Cymru
Simon Smith	Prif Swyddog Tân, Awdurdod Tân Gogledd Cymru
Y Cynghorydd Gareth Sullivan	Cadeirydd Dros Dro, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Y Cynghorydd David Waring	Is-gadeirydd, Awdurdod Tân De Cymru
Y Cynghorydd Trefor Roberts	Is-gadeirydd, Awdurdod Tân Gogledd Cymru
Nick Webley	Swyddog Adrannol Awdurdod Tân y Canolbarth a'r Gorllewin
John Fitzjohn	Swyddog Adrannol Cynorthwyol, Awdurdod Tân y Canolbarth â'r Gorllewin
Meinir Jones	Swyddog Addysg y Frigâd
Yr Athro David Adamson	Ymgynghorydd Arbenigol

Ysgrifenyddiaeth:

Roger Chaffey	Clerc
Claire Griffiths	Dirprwy Glerc

Sylwadau Agoriadol

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yr Aelodau yn fodlon â'r agenda ddiwygiedig oedd yn adlewyrchu cais gan yr Awdurdod Tân i wneud eu cyflwyniad cyn y toriad. Roedd y Pwyllgor yn fodlon.

Eitem 1: Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb na dirprwyon.

Eitem 2: Datgan Buddiannau

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau a ganlyn:

Peter Black: Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

William Graham: Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd.

Pauline Jarman: Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Dai Lloyd: Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

Janet Ryder: Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog LGH-07-02 (p1, Annex 1, Annex 2)

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad. Wrth wneud hynny tynnodd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Mapio tlodi ymysg plant. Mae Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi rhai canfyddiadau cychwynnol yn y dyfodol agos. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n fodlon i'r Gyfarwyddiaeth roi cyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol pe byddai'r Pwyllgor yn cymeradwyo hynny.

- Cyhoeddi'r Gronfa Adfywio Leol ar gyfer 2002-03 – Sectorau Cymunedol a Gwirfoddol.

- Cefnogaeth i glybiau cymuned/chwaraeon yn dilyn datganiad y Canghellor yn y gyllideb.

- Cyfarfu'r Pwyllgor Partneriaeth ar 22 Ebrill. Cafodd nifer o faterion eu codi.

- Roedd adroddiad y Gweithgor ar Ddiogelwch Tân yn y Gymuned "Wired for Safety" wedi dod i law. Roedd y Gweinidog wedi cymeradwyo nifer o'r argymhellion.

3.2 Yn ystod y drafodaeth, cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Croesawyd y cynnydd ar Adolygiad Ffiniau Llywodraeth Leol yn Llangollen.

- Gofynnwyd am adroddiad pellach ar olrhain tlodi ymysg plant.

- Croesawyd y cynnig i ddarparu adroddiad ysgrifenedig yn dilyn cyfarfod y Cyngor Partneriaeth.

- Croesawyd yr eglurhad ar Gynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

- Croesawyd gwybodaeth bellach ar wasanaeth Cyfryngu Cymru.

- Gofynnwyd am fanylion ar y penderfyniad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i beidio â derbyn yr ymgynghori cyhoeddus ar strwythurau gwleidyddol.

- Gofynnwyd am raddfa amser o ran ailbrisio ar gyfer treth y Cyngor.

- Gofynnwyd ar i'r Gweinidog barhau i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am nifer y cynghorwyr oedd wedi eu hatal am nad oeddynt wedi llofnodi'r cod ymddygiad.

- Nodwyd ei bod yn ymddangos bod nifer y bobl oedd yn ddigartref yng Nghymru wedi cynyddu.

3.3 Cafwyd yr atebion canlynol gan y Gweinidog a chynigiodd gymryd y camau gweithredu a ganlyn:

- Roedd y cynnydd yn nifer y bobl sy'n ddigartref wedi codi yn ôl pob tebyg o ganlyniad i newidiadau yn y diffiniadau a data ystadegol cywirach. Cytunodd y Gweinidog i ymchwilio ymhellach ac adrodd yn ôl.

- Y Gweinidog i ddarparu nodyn ar waith gwasanaeth "Cyfryngu Cymru".

- Y Gweinidog i ymchwilio ac ysgrifennu at William Graham am unrhyw gwynion a dderbyniwyd o ganlyniad i benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i beidio â derbyn canlyniad yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar strwythurau gwleidyddol.

- Y Gweinidog i roi manylion i'r Aelodau am y rheolau a'r rheoliadau ar gyfer ceisiadau i'r Gronfa Ymddiriedolaeth Gymunedol a chynigion ar gyfer cyhoeddusrwydd.

- Y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth ar 22 Ebrill.

- Y Gweinidog i drafod, gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y posibilrwydd o ryddhau canllawiau pellach ar "eithrio" a allai fod wedi digwydd o ganlyniad i effaith trais yn y cartref.

- Y Gweinidog i gylchredeg y canllawiau a gynhyrchwyd ar Roi Plant yn Gyntaf i'r Pwyllgor.

- Y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar nifer y cynghorwyr oedd wedi eu gwahardd.

- Y Gweinidog i ddarparu nodyn ar oblygiadau datganiad y Canghellor yn y gyllideb ynglŷn â chefnogaeth i glybiau chwaraeon amatur a chymunedol.

- Y Gweinidog i ddarparu manylion am raglen adfywio'r awdurdodau lleol ac eithrio arian cyfatebol yn ystod 2002-03.

3.4 Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at Atodiad 2 yn adroddiad y Gweinidog lle y ceid manylion am y rhaglen is-ddeddfwriaeth ar gyfer 2001-02. Gwahoddodd yr Aelodau i archwilio'r rhaglen hon ac, os oeddynt yn dymuno ystyried unrhyw rai o'r Offerynnau Statudol yn fwy manwl, i roi gwybod i'r Clerc er mwyn i'r eitem gael ei chynnwys ar agenda yn y dyfodol.

Eitem 4: Adolygiad polisi ar adfywio cymunedol

4.1 Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Gareth Sullivan, Cadeirydd dros dro Awdurdod Tân y Canolbarth a'r Gorllewin i gychwyn y cyflwyniad, Douglas Mackay – Dirprwy Brif Swyddog Tân, Awdurdod Tân y Canolbarth a'r Gorllewin, Simon Smith – Prif Swyddog Tân, Brigâd Gogledd Cymru a Brian Fraser – Prif Swyddog Tân, Brigâd De Cymru.

Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar dri maes:

- Y gwasanaeth tân a phobl ifanc
- Cysylltiad y gwasanaeth tân ag Ymddiriedolaeth y Tywysog
- Y wybodaeth ddiweddaraf ar y camau nesaf.

4.2 Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Mackay ragarweiniad i'r cyflwyniad ac amlinellodd y gwaith yr oedd y Gwasanaeth yn ei wneud gyda phobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys y 'Crucial Crew', lle y câi pobl ifanc eu haddysgu ynglŷn â holl ystod y peryglon yr oeddynt yn debygol o'u hwynebu, yn ogystal â grwpiau Ymladdwyr Tân Ifanc a rhaglen y Gwasanaeth Tân ar gyfer Gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth y Tywysog.

4.3 Drwy weithio gyda phobl ifanc, eglurodd fod y gwasanaeth yn gobeithio lleihau'r peryglon i'r plant eu hunain, a thrwy eu dylanwad hwy ar eraill, i'w ffrindiau a'u teuluoedd hefyd. Roeddynt yn gobeithio creu modelau rôl da i'r gymuned ac yn y pen draw i elwa drwy leihau nifer yr achosion o losgi bwriadol a galwadau ffug. Pwysleisiodd fod yr ymgyrchoedd i gyd yn dibynnu ar wirfoddolwyr os oeddynt i ffynnu.

4.4 Amlinellodd y Prif Swyddog Tân, Simon Smith, waith y gwasanaeth mewn perthynas â rhaglen Gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth y Tywysog. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu eu hyder, eu symbyliad a'u sgiliau, ond roedd hefyd yn cynnig manteision i'r gymuned leol. Wrth gymryd rhan yn y rhaglen, roedd y gwasanaeth yn cynyddu ei amlygrwydd yn y gymuned ac yn darparu cyfleoedd datblygu i'r rhai oedd yn cymryd rhan. Roedd hefyd yn cynnig ffordd arall i'r gwasanaeth gyflawni ei amcanion hyfforddi a datblygu. Roedd hyblygrwydd y gwasanaeth tân yn ei wneud yn un o bartneriaid mwyaf gwerthfawr yr Ymddiriedolaeth.

4.5 Er na ddylid bychanu'r gwaith gwirfoddol a wneid gan y gwasanaeth, rhybuddiodd y Prif Swyddog Tân Fraser fod ffactorau cyfyngol yn rhwystro'r gwasanaeth rhag gwneud mwy. Pwysleisiodd eilwaith fod y rhan fwyaf o'r gwaith a gâi ei wneud yn cael ei gyflawni yn wirfoddol. Er bod y gwasanaeth yn darparu rhaglen addysg oedd yn ymweld â phob ysgol yng Nghymru, teimlai y gellid gwneud rhagor i fanteisio ar y cyfleusterau sydd ar gael y dyddiau hyn mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru. Nododd bwysigrwydd atal tân drwy ddyfynnu ffigurau ymchwil oedd yn awgrymu bod pob tân mewn car yn costio £4000 i gymdeithas. Credai fod y ffigwr hwn hyd yn oed yn amcangyfrif rhy isel. Roedd y gwasanaeth tân yn awyddus i ehangu ei rôl gymunedol, er ei les ei hun ac er lles cymdeithas. Bydd gwneud hynny, fodd bynnag, yn cael effaith ar gyllidebau.

4.6 Dywedodd y Gweinidog fod ganddi hi berthynas waith glos iawn gyda'r gwasanaeth tân sy'n rhannu'r un gwerthoedd â'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion cymdeithasol. Ychwanegodd ei bod yn gobeithio y byddai'r Pwyllgor yn cytuno y dylid rhoi blaenoriaeth i'r maes gwerthfawr hwn pan fydd ei chyllideb hi yn dod gerbron y Pwyllgor.

4.7 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunai'r Pwyllgor ei bod yn hanfodol ariannu'r gwaith pwysig yr oedd y gwasanaeth tân yn ei wneud ar adfywio cymunedol heb leihau'r elfen ymladd tân yn eu cyllideb.

- Roedd yn hanfodol fod y gwaith addysgol yr oedd y gwasanaeth yn ei ddarparu, yn bennaf gyda phobl ifanc, yn parhau a phe byddai cyllidebau'n caniatáu, y dylid penodi Swyddogion Adfywio Cymunedol penodol i bob awdurdod. Ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw ofynion statudol i greu'r swyddi hyn ond roedd y Gwasanaeth yn ymgymryd â'r gwaith hwn fel dyletswydd foesol. Y consensws barn oedd y gellid lleihau nifer yr achosion o losgi bwriadol, tanau mewn cerbydau, ac ati, ymhellach drwy ragor o rwydweithio gyda grwpiau agored i niwed yn y gymdeithas.

- Cafwyd peth trafodaeth ar alwadau maleisus a'u heffeithiau. Mae hwn yn bwnc anferth y mae'r Gwasanaeth yn mynd i'r afael ag ef drwy ymweld â chymaint o ysgolion ag sy'n bosibl a siarad â disgyblion am ddifrifoldeb y galwadau hyn ar y cyd â'u sgyrsiau ar ddiogelwch tân. Os caiff person ifanc sy'n gwneud galwadau maleisus ei ddarganfod, bydd y gwasanaeth yn ymweld ag ef yn ei gartref ac yn egluro goblygiadau ei weithredoedd iddo. Mae'r rhaglen hefyd yn darparu ar gyfer ymweld â gorsafoedd tân.

- Mynegodd y Pwyllgor eu pryderon ynglŷn â phwnc sy'n cynyddu drwy'r amser sef llosgi cerbydau sydd wedi eu gadael. Nid yw'r rheoliadau presennol yn caniatáu i'r Gwasanaeth symud cerbydau sydd wedi eu gadael. Mae Grŵp y Fforwm Rheoli Llosgi Bwriadol ar hyn o bryd yn edrych ar y ddeddfwriaeth gyda'r bwriad o ddiweddaru'r cylch gwaith ar losgi bwriadol. Nid yw hwn yn faes sydd wedi ei ddatganoli ond cytunodd y Gweinidog i gyflwyno sylwadau i San Steffan.

4.8 Diolchodd y Cadeirydd i'r awdurdodau tân am roi eu cyflwyniadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau. Ychwanegodd fod y gwasanaeth yn gwneud gwaith gwerthfawr iawn i'r gymuned yn ychwanegol at ymladd tanau.

4.9 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod adroddiadau'r Athro Dave Adamson ar yr ymweliadau â Gorllewin a Gogledd Cymru wedi eu cylchredeg i'r Aelodau erbyn hyn. Ychwanegodd fod yr Aelodau wedi cael ymateb cadarnhaol, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, a gwahoddodd y Pwyllgor i ystyried cynnal y cyfarfod oedd wedi ei drefnu ar gyfer 12 Mehefin yng Ngogledd Cymru. Cytunodd y Pwyllgor i'r cais hwn. Gofynnodd y Cadeirydd i Glerc y Pwyllgor wneud y trefniadau.

Eitem 5: Y diweddaraf ar y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd yn dilyn adroddiad y Comisiwn Digartrefedd ac ystyried drafft o'r strategaeth Ddigartrefedd LGH-07-02 (p2, Annex 1, Annex 2)

5.1 Roedd y Pwyllgor wedi croesawu adroddiad trawsbynciol y Comisiwn Digartrefedd ym mis Hydref 2001, y bu'r Dirprwy Weinidog yn gadeirydd arno. Cyflwynodd y papur hwn sy'n rhoi ymateb y Cynulliad i adroddiad y Comisiwn. Mae rhan gyntaf yr adroddiad ar ffurf atodlen sy'n cynnwys ymatebion penodol i bob un o'r argymhellion. Dilynir hyn gan strategaeth ddrafft ar ddigartrefedd, a fydd yn ffurfio rhan o'r Strategaeth Dai Genedlaethol. Bwriedir cyhoeddi'r atodlen ymatebion a rhyddhau'r strategaeth ddrafft ar gyfer ymgynghori yn y dyfodol agos.

5.2 Cytunai'r Pwyllgor fod swm anferth o waith wedi ei gyflawni ac roedd yr Aelodau'n teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Roeddynt yn croesawu'n arbennig y diffiniad o ddigartrefedd. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd yn bwysig caniatáu ar gyfer disgresiwn lleol.

- Mae angen hyfforddiant a chanllawiau ar swyddogion rheng flaen ac mae'n hanfodol fod hynny'n cael ei weithredu'n deg drwy Gymru gyfan.

- Pa beirianwaith sydd wedi ei sefydlu i fonitro'r strategaeth? Cytunodd y Gweinidog i sefydlu grŵp ymgynghorol o swyddogion ac ymarferwyr a fydd yn adrodd yn ôl yma ac i'r Fforwm Tai Cenedlaethol.

- Roedd y Cynllun Bond Caethiwo yn tynnu sylw at faterion pwysig. Bwriedir trafod y mater hwn yn y cyfarfod ar 8 Mai.

- Mae digartrefedd mewn ardaloedd gwledig yn anodd ei fesur.

- Mae'n bwysig bod y digartref yn gallu manteisio ar wasanaethau iechyd. [Mater i Iechyd yw hwn.]

- Roedd ymgyrch deledu yn cael eu hystyried i hyrwyddo'r fenter. Teimlid y byddai hynny'n gostus iawn.

- Nodwyd nad yw polisi carchardai yn fater sydd wedi ei ddatganoli, ond yr allwedd yw sicrhau bod llety a gwaith wedi eu trefnu cyn rhyddhau.

Eitem 6: Adolygiad ar Eithrio o Dai Cymdeithasol – adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghori LGH-07-02 (p3)

6.1 Dywedodd y Gweinidog fod yr adolygiad wedi ei gynnal mewn ymateb i argymhelliad a wnaethpwyd gan un o'r Grwpiau Gorchwyl oedd yn ymwneud â datblygu'r Strategaeth Dai Genedlaethol i Gymru a awgrymai fod angen rhagor o ymchwil i raddfa, natur ac effaith arferion rhwystrol wrth ddyrannu tai cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru nawr yn bwriadu diwygio a diweddaru'r Gofynion Rheoliadol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a diwygio ac ailryddhau Cod Canllawiau i awdurdodau lleol ar ddyraniadau a digartrefedd.

6.2 Croesawai'r Pwyllgor yr adroddiad er bod yr Aelodau'n poeni am grwpiau sydd â mynediad cyfyngedig a grwpiau lleiafrifol megis teithwyr.

6.3 Cafodd y Pwyllgor sicrwydd fod y polisïau ar eithrio o dai cymdeithasol yn gyson â'r polisïau ar fynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent.

6.4 Bu'r Pwyllgor yn trafod maes trais yn y cartref ac ôl-ddyledion rhent gan fod yr Aelodau o'r farn nad oedd pobl sy'n dioddef trais yn gyffredinol yn gallu ail-leoli oherwydd bod ganddynt ôl-ddyledion rhent pan fyddai perthynas yn chwalu. Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y pryderon hyn.

Eitem 7: Adroddiad Waterhouse – goblygiadau gweithredu argymhellion adroddiad Waterhouse LGH-07-02 (p4)

7.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur hwn oedd yn nodi'r camau a gymerwyd i weithredu'r argymhellion yn adroddiad Waterhouse sy'n disgyn o fewn ei chylch gwaith hi.

7.2 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd pobl ifanc 15-17 oed yng Ngharchar y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, yn dod o dan y Ddeddf Plant. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n credu mai mater i'r Swyddfa Gartref oedd hwn ac felly nad oedd argymhellion Waterhouse yn berthnasol iddo. Cytunodd i godi'r mater gyda Jane Hutt ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

7.3 Teimlai'r Pwyllgor fod y strwythurau rheoli gwleidyddol newydd ar y cyfan yn cael effaith gadarnhaol o ran sefydlu atebolrwydd clir ar gyfer gwasanaethau plant a

throsolwg fwy corfforaethol ond roedd yn bwysig sicrhau bod yr aelodau i gyd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Tynnodd y Gweinidog sylw at waith yr oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Syniad ac awdurdodau wedi ei wneud ar fod yn rhieni corfforaethol. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu copïau i'r Pwyllgor o'r canllawiau ar y strwythurau gwleidyddol newydd a'r fframwaith moesegol fel yr oedd yn ymwneud ag argymhellion Waterhouse ac i gylchredeg canllawiau Rhoi Plant yn Gyntaf mewn perthynas â rôl aelodau.

7.4 Cododd y Pwyllgor rai pryderon ynglŷn â'r argymhelliad ar ddatgelu camarfer a phwysleisiwyd bod yn rhaid monitro hynny'n gywir ac amddiffyn y rhai sy'n datgelu camarfer ar bob achlysur.

Eitem 8: Adroddiad blynyddol i'r Sesiwn Llawn LGH-07-02 (p5)

8.1 Cytunai'r Pwyllgor fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o waith y Pwyllgor.

Eitem 9: Blaenraglen Waith – Ystyried y flaenraglen waith strategol derfynol LGH-07-02 (p6)

9.1 Cytunwyd y byddai'n synhwyrol ystyried yr adolygiad ar Adfywio Cymunedol cyn ymrwymo i unrhyw adolygiadau pellach ar hyn o bryd. Roedd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol y bydd y tymor hwn yn y Cynulliad yn dod i ben ymhen 12 mis ac na fyddent yn dymuno bod mewn sefyllfa lle y byddai meysydd gwaith heb eu cwblhau.

Eitem 10: Cofnodion cyfarfod 20 Mawrth LGH-06-02 (min)

10.1 Cytunwyd ar y cofnodion.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor **Ebrill 2002**

Crynodeb o'r pwyntiau gweithredu:

1. Y Gweinidog i ddarparu nodyn ar waith gwasanaeth "Cyfryngu Cymru".

2. Y Gweinidog i ymchwilio ac ysgrifennu at William Graham am unrhyw gwynion a dderbyniwyd o ganlyniad i benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i beidio â derbyn canlyniad yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar strwythurau gwleidyddol.

3. Y Gweinidog i roi manylion i'r Aelodau am y rheolau a'r rheoliadau ar gyfer ceisiadau i'r Gronfa Ymddiriedolaeth Gymunedol a chynigion ar gyfer cyhoeddusrwydd.

4. Y Gweinidog i gylchredeg nodyn ar y pwyntiau a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Partneriaeth ar 22 Ebrill.

5. Y Gweinidog i drafod gyda Jane Hutt y posibilrwydd o ryddhau canllawiau pellach ar "eithrio" a allai fod wedi digwydd o ganlyniad i effaith trais yn y cartref.

6. Y Gweinidog i gylchredeg y canllawiau a gynhyrchwyd ar Roi Plant yn Gyntaf i'r Pwyllgor.

7. Y Gweinidog i ysgrifennu at y Cadeirydd yn rhoi gwybod a yw pobl ifanc 15 - 17 oed yn cael eu cynnwys yn argymhellion Waterhouse neu a ydynt yn cael eu heithrio, ac mai cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Cartref ydynt.

8. Y Gweinidog i adrodd ymhellach i'r Pwyllgor ynglŷn â sut y mae disgwyl i gynghorau gwrdd â'u cyfrifoldebau o ran bod yn rhieni corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal o fewn y strwythurau gwleidyddol newydd ac i gylchredeg canllawiau Rhoi Plant yn Gyntaf mewn perthynas â rôl aelodau.

9. Y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar nifer y cynghorwyr oedd wedi eu gwahardd.

10. Y Gweinidog i ddarparu nodyn ar oblygiadau datganiad y Canghellor yn y gyllideb ynglŷn â chefnogaeth i glybiau chwaraeon amatur a chymunedol.

11. Y Gweinidog i ddarparu manylion am raglen adfywio'r awdurdodau leol ac eithrio arian cyfatebol yn ystod 2002-03.

12. Y Gweinidog i gylchredeg cynnwys y canllawiau drafft ar god ymddygiad mewn perthynas â "phobl sy'n datgelu camarfer".

13. Y Clerc i drefnu bod Mapio Tlodi Ymysg Plant yn cael ei gynnwys fel eitem Agenda ar gyfer y dyfodol.